

Briff Ymchwil

# Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ym maes Addysg Bellach ac Uwch


Awdur: **Laura Beth Davies**



Dyddiad: **Gorffennaf 2017**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

---

Awdur: **Laura Beth Davies**
Dyddiad: **Gorffennaf 2017**
Rhif Papur: **17-015**

Llun: o Wicimedia gan Stuart Butterfield. Dan drwydded Creative Commons.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn cydnabod y cymorth a ddarperir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i Laura Beth Davies ar gyfer ei hastudiaethau academaidd a'i hinterniaeth gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru, a'i galluogodd i gwblhau'r briff ymchwil hwn. Mae Laura Beth yn gynrychiolydd ôl-raddedig ar Fwrdd Academaidd y Coleg.

## Cysylltwch â ni

**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

: **0300 200 6293**
: **Michael.Dauncey@Cynulliad.Cymru**
: **Cynulliad.Cymru/Pigion**
: **@SeneddYmchwil**
: **Cynulliad.Cymru/Ymchwil**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

# Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ym maes Addysg Bellach ac Uwch

Mae'r papur hwn yn rhoi trosolwg o'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sectorau Addysg Bellach ac Uwch yng Nghymru. Mae'n egluro'r cyd-destun polisi ac yn cyfeirio at sefydliadau a mentrau allweddol. Mae'r papur hefyd yn rhoi ystadegau ar nifer y gweithgareddau dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sectorau hyn a nifer y dysgwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae gan Lywodraeth Cymru darged o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac mae o'r farn bod addysg a dilyniant ieithyddol yn un o'r prif ffyrdd o gyflawni hyn, fel y nodir yn ei Strategaeth Iaith newydd. Bydd adroddiad grŵp gorchwyl a gorffen Llywodraeth Cymru ar ddyfodol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

# Cynnwys


1. Crynodeb .......... 1
2. Y sefyllfa gyfreithiol .......... 1
3. Y cyd-destun polisi cyffredinol .......... 2
4. Y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg a mentrau eraill .......... 4
5. Y sefyllfa ym maes Addysg Bellach .......... 11
6. Y sefyllfa ym maes Addysg Uwch .......... 16
7. Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol .......... 17

# 1. Crynodeb

Roedd **7.8 y cant** o'r **gweithgareddau dysgu** yn y **sector Addysg Bellach** yn 2015/16 yn cynnwys rhywfaint o'r Gymraeg, gyda **0.29 y cant** o'r gweithgareddau yn cael eu cynnig drwy gyfrwng **y Gymraeg yn unig**. Yn y sector **Addysg Uwch**, roedd **6,335 o fyfyrwyr** yn astudio rhywfaint o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynrychioli **5 y cant o fyfyrwyr yng Nghymru**. Mae gan Lywodraeth Cymru darged o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac mae o'r farn bod addysg a dilyniant ieithyddol yn un o'r prif ddulliau o gyflawni hyn. Wrth drafod y targed yn y Siambr ar **9 Tachwedd 2016**, dywedodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes fel a ganlyn:

> *Rydym hefyd eisiau gweld mwy o ddysgwyr mewn addysg bellach ac mewn addysg uwch yn gallu parhau eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg, neu yn y ddwy iaith, ac mi fyddwn ni yn datblygu cyfleoedd i wneud hynny.*

Cyhoedd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Iaith newydd, **Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr** ar 11 Gorffennaf 2017. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi Strategaeth Iaith Gymraeg newydd yr haf hwn, neu tua dechrau tymor newydd y Cynulliad (Medi 2017). Cyhoeddodd y Gwasanaeth Ymchwil bapur briffio **Addysg cyfrwng Cymraeg a'r Gymraeg fel pwnc (PDF 792 KB)** (Awst 2016), a oedd yn egluro safle'r Gymraeg mewn addysg statudol. Mae'r papur hwn yn disgrifio addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ôl-16 mewn Addysg Bellach, ac ôl-18 mewn Addysg Uwch. Roedd datblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ôl-14 yn un o nodau strategol y **Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg** ac roedd y **gwerthusiad o'r Strategaeth** yn dangos yr angen i ddatblygu'r ddarpariaeth ymhellach. Mae gan fentrau eraill, megis y Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg, yr Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd a sefydliadau megis ColegauCymru, Sgiliaith a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, hefyd rôl allweddol. Bydd adroddiad grŵp gorchwyl a gorffen Llywodraeth Cymru ar ddyfodol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir.

# 2. Y sefyllfa gyfreithiol

Mae **Adran 9** o **Ddeddf Addysg 1996** yn datgan bod yn rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i'r egwyddor gyffredinol bod disgyblion i gael eu haddysgu yn unol â dymuniadau eu rhieni cyhyd â bod hynny'n gydnaws â darparu addysg a hyfforddiant effeithlon ac yn osgoi gwariant cyhoeddus afresymol. Mae **Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013**, yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i asesu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn eu hardal drwy eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Trwy'r Cynlluniau Strategol, rhaid i awdurdodau lleol nodi sut y byddant yn ateb y galw hwn a gwella'r broses o gynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Mae addysg cyfrwng Cymraeg, felly, ar sail statudol cyn-16 ac mae'n bolisi gan Lywodraeth Cymru y dylai pob disgybl astudio Cymraeg o 3 hyd 16 mlwydd oed, naill ai fel iaith gyntaf neu fel ail iaith. Nid oes yr un lefel o sail statudol i addysg cyfrwng Cymraeg ôl-16.

## Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009

Sefydlodd y **Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009** Lwybrau Dysgu 14-19, gyda'r nod o gynyddu'r dewisiadau ar gyfer pobl ifanc a sicrhau bod y cwricwla lleol yn cynnig amrywiaeth eang o gyrsiau a chyfleoedd i ddysgwyr. Roedd hyn yn cynnwys **datblygu a chynyddu mynediad i gyrsiau cyfrwng Cymraeg**. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol:

*Each local education authority must exercise their functions in relation to local curricula so as to promote access to and availability of courses of study which are taught through the medium of the Welsh language.*

Yn y **Canllawiau ar y Cwricwlwm Lleol i Fyfyrwyr 16 i 18 oed**, nodwyd fod angen ystyried y galw gan ddysgwyr am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg:

*Dylid ystyried yn llawn ddymuniad person ifanc sydd am dderbyn ei addysg drwy gyfrwng y Gymraeg wrth gynllunio sut i ddarparu'r cwricwlwm lleol.*

Hefyd, nodwyd yn y Canllawiau fod angen sicrhau *'lleiafswm'* o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer myfyrwyr mewn sefydliad cyfrwng Cymraeg:

*Lle bydd disgybl yn mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg, neu sefydliad cyfrwng Cymraeg, yna wrth lunio'r cwricwlwm lleol ar gyfer y sefydliad hwnnw, rhaid i gynllunwyr cwricwla lleol sicrhau y gall y myfyriwr fanteisio ar gwricwlwm lleol sy'n bodloni'r lleiafswm y mae gan ddysgwyr yr hawl iddo drwy gyfrwng y Gymraeg.*

### Y Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014

Nod y Ddeddf hon oedd lleihau ac addasu'r rheolaeth deddfwriaethol dros Sefydliadau Addysg Bellach, gan roi mwy o ymreolaeth iddynt.[1] Arweiniodd hyn at wrthdroi ailddosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn 2010 o Sefydliadau Addysg Bellach fel rhan o'r llywodraeth ganolog at ddibenion y cyfrifon cenedlaethol. Ym mis **Ionawr 2015**, trosglwyddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol statws sefydliadau Addysg Bellach yn ôl yn Sefydliadau Di-elw sy'n Gwasanaethu Aelwydydd.

## 3. Y cyd-destun polisi cyffredinol

### Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050

Ar **1 Awst 2016**, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru darged o **filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.** Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud bod gan y system addysg, gan gynnwys y sector ôl-orfodol, rôl ganolog i'w chwarae wrth gyrraedd y targed hwn. Wrth gyhoeddi'r targed, tynnodd Alun Davies, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, sylw at **rôl y sector addysg** o ran ei gyflawni:

*Rydym am i bawb gael cyfle i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o'r blynyddoedd cynnar i addysg uwch, a bod hyn yn cael ei weld fel rhan annatod o'r ddarpariaeth gyffredinol yn hytrach na rhywbeth ar wahân.*

Yn y Siambr ar **9 Tachwedd 2016**, ychwanegodd:

*Rydym ni'n cydnabod bod yna her… o'r blynyddoedd cynnar i'r sector ôl-16. Mae'n rhaid i ni gymryd camau bwriadus i gynyddu'r ddarpariaeth os ydym ni am weld y weledigaeth…rydym yn cydnabod bod yn rhaid cryfhau y prosesau cynllunio strategol ar gyfer pob cyfnod addysg a hyfforddiant, sydd yn hollbwysig os ydym ni yn mynd i lwyddo.*

---

[1]Mae deg o golegau yn Gorfforaethau Addysg Bellach sy'n elusennau esempt, mae tri choleg yn cael eu rheoli erbyn hyn gan sefydliadau Addysg Uwch, ac mae Coleg Cymunedol YMCA WEA Cymru a unwyd yn ddiweddar (sydd bellach wedi'i ailenwi yn Dysgu Oedolion Cymru) yn gweithredu ar draws Cymru gyfan. Yn y papur briffio hwn, cyfeirir at bob un ohonynt fel 'Sefydliadau Addysg Bellach'.

## Y Strategaeth Iaith Gymraeg

Roedd Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru, **Iaith fyw: iaith byw,** i fod i ddod i ben ar 31 Mawrth 2017. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar strategaeth ddrafft newydd rhwng mis Awst a mis Hydref 2016. Un o'r chwe maes yn y strategaeth newydd arfaethedig oedd addysg. Cynhaliodd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu'r Cynulliad **Ymchwiliad i Strategaeth Gymraeg newydd Llywodraeth Cymru (PDF 672KB),** gan gyhoeddi ei adroddiad ym mis Mai 2017, a oedd yn cynnwys 23 o argymhellion. Mae'r rhan fwyaf o argymhellion yn cyfeirio at y sector addysg a daeth yr adroddiad i'r casgliad bod y targed o filiwn o siaradwyr:

> *yn un a fydd angen ei* ***gyflawni i raddau helaeth drwy'r system addysg.***

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Gymraeg newydd **Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr** ar 11 Gorffennaf 2017. Mae gan y **sector addysg rôl allweddol** yn y strategaeth. **Ar hyn o bryd mae 22 y cant** o blant saith oed yn cael addysg cyfrwng Cymraeg a'r nod yw cynyddu hyn i **30 y cant** erbyn **2031**, a **40 y cant** erbyn **2050**. Y targed yw bod **70 y cant o'r holl ddisgyblion** yn **rhugl** yn y Gymraeg **erbyn iddynt adael yr ysgol** yn 2050. Mae'r strategaeth yn pwysleisio fod gan y sector addysg ran bwysig i'w chwarae yn y strategaeth, gan gynnwys y **sector ôl-orfodol**:

> *Mae creu'r amodau cywir i ddysgwyr newydd o bob oedran ddatblygu a defnyddio eu sgiliau yn amcan hollbwysig – o'r blynyddoedd cynnar, drwy bob cam o addysg orfodol ac ôl-16, hyd at gyfleoedd i oedolion ddysgu'r Gymraeg.*

Er mwyn cyrraedd ei dargedau, mae'r strategaeth yn dweud bod angen:

> ***Diwygio'r cynnig addysg a sgiliau ôl-16 cyfrwng Cymraeg a dwyieithog*** *i sicrhau bod gan bobl ifanc gyfle i barhau i ddatblygu sgiliau dwyieithog i gefnogi economi sy'n ffynnu.*

Mae'r camau yn y rhaglen waith sy'n ymwneud â'r nod hwn yn cynnwys:

01. Ymateb i **argymhellion** y **grŵp gorchwyl a gorffen** sy'n adolygu gweithgareddau'r **Coleg Cymraeg Cenedlaethol**, gan roi sylw penodol i'r cyfraddau sy'n mynd ymlaen i addysg uwch, a datblygu addysg a sgiliau dwyieithog sy'n ymateb i anghenion yr economi.
02. Parhau i **ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog addysg bellach** o ran y cyrsiau sydd ar gael a niferoedd y myfyrwyr sy'n eu dilyn.

## Adolygiad Hazelkorn

Cyhoeddwyd adolygiad yr Athro Ellen Hazelkorn, **Tuag at 2030: Fframwaith ar gyfer datblygu system addysg ôl-orfodol o'r radd flaenaf i Gymru,** ym mis Mawrth 2016. Ail argymhelliad yr adroddiad oedd:

> ***Sefydlu un awdurdod newydd*** *– a gaiff ei alw'n* ***Awdurdod Addysg Drydyddol*** *– fel un awdurdod rheoleiddio, goruchwylio a chydgysylltu i'r sector ôl-orfodol.*

Nid oedd unrhyw argymhellion penodol yn ymwneud â darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Ar **31 Ionawr 2017,** gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ddatganiad ar Adolygiad Hazelkorn, gan nodi ei bod yn bwriadu ymgynghori ar yr argymhellion yn y gwanwyn. Ychwanegodd ei bod yn 'obeithiol' y gellid cwblhau'r broses gyfan, gan gynnwys ymgynghori a chraffu ar y ddeddfwriaeth angenrheidiol, o fewn cyfnod o dair blynedd. Ar 20 Mehefin 2017 gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet **ddatganiad** arall ar addysg a hyfforddiant ôl-orfodol a lansiodd **ymgynghoriad Papur Gwyn, 'Budd y Cyhoedd a**

Chymru Ffyniannus' (PDF 0.97MB), a fydd yn dod i ben ddiwedd mis Hydref 2017. Mae hwn yn symud ymlaen yr argymhelliad i sefydlu un awdurdod newydd i fod yn rheoleiddiwr ac yn awdurdod cyllido â throsolwg ar gyfer y sector ôl-orfodol, a fydd yn cael ei alw'n **Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru** (TERC), a fyddai'n disodli Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Dilynir yr ymgynghoriad cychwynnol gan ymgynghoriad technegol.

### Adolygiad Diamond

Ym mis Medi 2016, cyhoeddwyd adolygiad yr Athro Syr Ian Diamond Adolygiad annibynnol o drefniadau cyllido addysg uwch a chyllid myfyrwyr yng Nghymru (adolygiad Diamond). Cydnabu'r adolygiad fod angen am **gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar lefel Addysg Uwch.** Yn yr adroddiad, nododd yr Athro Diamond fel a ganlyn:

> *Rydym wedi derbyn tystiolaeth sylweddol ar fuddioldeb a'r angen i addysg uwch gael ei haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn cefnogi gant y cant yr angen i ddatblygu model cyllido cynaliadwy, nid yn unig ar gyfer y sefyllfa bresennol ond, yn bwysig, er mwyn gwella'r ddarpariaeth.*

# 4. Y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg a mentrau eraill

Yn 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg a oedd yn cynnwys chwe nod strategol cenedlaethol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg. Roedd yr **ail nod strategol** yn canolbwyntio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y **sector ôl-16**:

> *Gwella'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yng nghyfnodau ôl-14 addysg a hyfforddiant, gan ystyried dilyniant ieithyddol a datblygu sgiliau'n barhaus.*

Roedd amcanion strategol y nod hwn yn cynnwys:

> *AS2.1 Cynyddu cyfleoedd o ansawdd uchel i astudio neu hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg o dan **Llwybrau Dysgu 14–19**, yn unol â Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 a chyfarwyddyd cysylltiedig.*
>
> *AS2.3 Cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn **addysg bellach**.*
>
> *AS2.4 Cynllunio ar gyfer darpariaeth sy'n sicrhau dilyniant ieithyddol o'r cyfnod addysg statudol i mewn i gyrsiau ôl-16 ac ôl-19 sy'n cynnal ac yn atgyfnerthu sgiliau ieithyddol yn y Gymraeg.*
>
> *AS2.6 Hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth rhwng y sector addysg uwch (gan gynnwys y **Coleg Ffederal** arfaethedig) [a alwyd wedi hynny yn Goleg Cymraeg Cenedlaethol] a'r sector ôl-16 ar lwybrau dilyniant effeithiol i'r dysgwyr o'r ddarpariaeth ôl-16 i addysg uwch cyfrwng Cymraeg*
>
> *AS2.7 Gwella'r broses o gynllunio llwybrau ar gyfer dilyniant cyfrwng Cymraeg **i mewn i addysg uwch ac ynddi**, mewn pynciau academaidd a meysydd galwedigaethol â blaenoriaeth.*

Roedd y trydydd amcan strategol yn pwysleisio pa mor bwysig oedd sicrhau **dilyniant ieithyddol** rhwng y sectorau addysg:

*Sicrhau bod pob dysgwr yn datblygu ei sgiliau iaith yn y Gymraeg i'w botensial llawn ac annog dilyniant ieithyddol cadarn o un cyfnod addysg a hyfforddiant i'r nesaf.*

Roedd yr amcanion strategol yn cynnwys:

*AS3.2 Datblygu cyfleoedd pellach i ddysgwyr ôl-16 gynnal a gwella eu sgiliau iaith yn y Gymraeg er mwyn darparu dilyniant ieithyddol.*

Er mwyn monitro cynnydd, gosododd y Strategaeth dargedau o bum mlynedd a deng mlynedd yn seiliedig ar bum deilliant. Deilliant 4 oedd:

*Mwy o fyfyrwyr 16–19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith.*

Mae'r data yn y tablau isod yn dangos y targedau ar gyfer 2010 a 2020.

**Deilliant 4: Mwy o fyfyrwyr 16-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith**

| | 2007/08 | | 2015 | | 2020 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gweithgareddau dysgu myfyrwyr yn ôl dull cyflwyno*** | CC** | D** | CC | D | CC | D |
| **Ysgolion** | 9.6% | 5.3% | 12.0% | 6.0% | 14% | 6% |
| **Sefydliadau addysg bellach** | 0.2% | 4.5% | 1.0% | 6.0% | 2% | 8% |
| **Dysgu seiliedig ar waith** | 0.2% | 1.2% | 0.5% | 2.0% | 1% | 3% |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2010, Y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, t. 25

Y **targedau ar gyfer 2020** yw **2 y cant o ddysgwyr** mewn **sefydliadau Addysg Bellach** yn astudio **drwy gyfrwng y Gymraeg** ac **8 y cant** o ddysgwyr yn astudio'n **ddwyieithog**. Y targedau ar gyfer ysgolion yw 14 y cant o ddysgwyr ôl-16 yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, a 6 y cant yn ddwyieithog.

Roedd y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn cynnwys Rhaglen Weithredu ar gyfer pob un o'r amcanion strategol. Roedd y camau gweithredu ar gyfer Nod Strategol 2 ('Gwella'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yng nghyfnodau ôl-14 addysg a hyfforddiant, gan ystyried dilyniant ieithyddol a datblygu sgiliau'n barhaus') yn cynnwys:

- Datblygu dulliau effeithiol o gynllunio ar gyfer darpariaeth 14–19 cyfrwng Cymraeg drwy fforymau rhanbarthol cyfrwng Cymraeg;
- Cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn addysg bellach (AB) a Dysgu Seiliedig ar Waith;
- Gwella cynllunio dilyniant ieithyddol i'r cyfnodau ôl-16 ac ôl-19;
- Datblygu fframwaith ar gyfer cydweithredu rhwng darpariaeth addysg uwch (AU) ac ôl-16 cyfrwng Cymraeg;
- Blaenoriaethu cyrsiau ac opsiynau sy'n sicrhau'r cyfleoedd mwyaf ar gyfer dilyniant cyfrwng Cymraeg i AU.

## Adroddiadau blynyddol

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiadau blynyddol yn gwerthuso cynnydd y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Roedd adroddiad blynyddol 2013-14 yn dangos, erbyn y flwyddyn academaidd **2012/13**, fod **sefydliadau Addysg Bellach** eisoes wedi cyrraedd targed 2015 o 7 y cant o fyfyrwyr yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog, a bod **8.4 y cant** o'r **gweithgareddau dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog**. Fodd bynnag, nid oedd yr adroddiadau yn rhoi ystadegau ar wahân ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg a darpariaeth ddwyieithog. Yn yr adroddiad, soniwyd fod chwe choleg wedi cynnal eu darpariaeth Gymraeg a saith coleg wedi cynyddu eu darpariaeth. Roedd adroddiad blynyddol 2014-15 yn dangos bod nifer y gweithgareddau dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog mewn colegau Addysg Bellach wedi cynyddu ychydig i **8.5 y cant** yn y flwyddyn academaidd **2013/14**.

Yn 2015-16, roedd yr adroddiad ar y Strategeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn rhan o adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru Iaith fyw: iaith byw: Strategaeth y Gymraeg 2012-17. Roedd yr adroddiad yn crynhoi gweithgareddau dysgu myfyrwyr yn ôl y cyfrwng cyflwyno rhwng 2009-10 a 2014-15. Dangosodd yr adroddiad fod **7.2 y cant** o'r gweithgareddau dysgu mewn sefydliadau Addysg Bellach yn cael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog yn y flwyddyn academaidd **2014/15**.

**Gweithgareddau dysgu yn ôl dull cyflwyno**

| Gweithgareddau dysgu myfyrwyr yn ôl dull cyflwyno (LA26) | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | CC+D | CC+D | CC+D | CC+D | CC+D | CC+D |
| Ysgolion | 17.1% | 21.0% | 17.4% | 20.1% | 20.5% | 20.4% |
| Sefydliadau addysg bellach | 6.2% | 5.7% | 6.7% | 8.4% | 8.5% | 7.2% |
| Dysgu seiliedig ar waith | 1.5% | 3.0% | 3.9% | 3.6% | 3.0% | 6.7% |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2016, Iaith fyw: iaith byw: Strategaeth y Gymraeg 2012-17: Adroddiad Blynyddol 2015-16

Cafodd diffiniad y Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru ar gyfer dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ôl-16 ei ddiwygio yn 2014/15. Cyn 2014/15, roedd iaith y dysgu yn cael ei chofnodi yn ôl iaith yr ystafell ddosbarth. Ers 2014-15, mae'r dysgu yn cael ei gofnodi yn ôl y cyfrwng dysgu a'r modd y caiff unigolion eu hasesu. Mae hyn yn esbonio'r gostyngiad o 8.5 y cant yn 2013/14 i 7.2 y cant yn 2014/15. Cyn 2010/11, roedd y data ar gyfer darpariaeth ddysgu seiliedig ar waith a gyflwynir gan sefydliadau Addysg Bellach yn cael ei dosbarthu o dan 'sefydliadau Addysg Bellach'. O 2010/11 ymlaen, mae'r data hyn yn cael eu dosbarthu o dan 'dysgu seiliedig ar waith'.

## Gwerthuso'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg

Comisiynodd Llywodraeth Cymru Arad i ymgymryd â'r Gwerthusiad o'r strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg ym mis Hydref 2012. Cafodd yr adroddiad ei gyhoeddi yn 2016 ac roedd yn cynnwys 21 o argymhellion. Daeth yr adroddiad i'r casgliad na fu digon o ddatblygiad yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector Addysg Bellach:

> ***ychydig iawn o gynnydd*** *sydd wedi ei weld mewn* ***darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector AB*** *yn ystod oes y Strategaeth.*

Yn wahanol i'r adroddiadau blynyddol ar y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, roedd y gwerthusiad hwn yn cynnwys rhai ystadegau ar wahân ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y

sector Addysg Bellach. Yn **2013/14**, roedd **1.7 y cant o gyrsiau Addysg Bellach** yn cael eu darparu **drwy gyfrwng y Gymraeg**.

Roedd tri argymhelliad yn cyfeirio at ddarpariaeth ôl-16 cyfrwng Cymraeg. Argymhelliad 11 oedd y dylai colegau Addysg Bellach fod â chynlluniau strategol ar gyfer datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg:

> *Dylai sefydliadau addysg bellach sicrhau bod ganddynt gynlluniau gweithredu i ddatblygu darpariaeth Gymraeg sy'n gyfredol ac sy'n nodi eu meysydd blaenoriaeth yn glir. Dylai cynlluniau strategol y sefydliadau nodi sut y byddant yn ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y colegau i gefnogi twf yn y sector.*

Nododd argymhelliad 12 fod angen sicrhau cysondeb rhwng cynlluniau strategol colegau Addysg Bellach a Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdodau lleol. (Roedd y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg i fesur y galw am addysg cyfrwng Cymraeg ac i amlinellu eu targedau i Lywodraeth Cymru):

> *Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cydberthynas a chysondeb rhwng CSGAau a chynlluniau gweithredu darpariaeth cyfrwng Cymraeg sefydliadau addysg bellach.*

Roedd argymhelliad 13 yn cyfeirio at asesu'r galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ôl-16:

> *Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut i fesur y galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ôl-16 mewn modd mwy systematig. Dylid archwillio sut y gellid sicrhau bod dysgwyr yn mynegi eu dewis iaith astudio fel rhan o broses ymgeisio gyffredin newydd.*

## Y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: y camau nesaf

Yn dilyn y gwerthusiad, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad polisi, **Y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: y camau nesaf** ym mis Mawrth 2016, er mwyn gosod cyfeiriad addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg Gymraeg yn ystod y flwyddyn ganlynol. Mae'r datganiad polisi yn amlinellu'r llwyddiannau ers cyhoeddi'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Roedd hyn yn cynnwys dau lwyddiant o ran y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector ôl-16. Roedd Llywodraeth Cymru wedi:

> *ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a cholegau addysg bellach gyflwyno cynlluniau blynyddol i Lywodraeth Cymru'n nodi pa ddarpariaeth ôl-16 fydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog*

[ac wedi]

> *cefnogi cyfleoedd i ddysgwyr ym Mlynyddoedd 10-13 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a cholegau addysg bellach ddatblygu eu dealltwriaeth o barhau i ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg wrth iddynt symud i addysg ôl-16 ac ôl-19, hyfforddiant a'r gweithle.*

Mae'r datganiad polisi hefyd yn nodi'r targedau ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Roedd dau darged yn cyfeirio at y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector ôl-16.

> *Gweithio gyda cholegau addysg bellach i sicrhau bod y gwaith a wneir gan yr Hyrwyddwyr Dwyieithog yn cael ei wreiddio yn eu prosesau cynllunio;*

[a]

*Parhau i hyrwyddo dilyniant ieithyddol o un cyfnod addysg a hyfforddiant i'r nesaf mewn partneriaeth ag ysgolion, colegau, darparwyr dysgu'n seiliedig ar waith a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.*

## Y Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg

Datblygwyd y Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg yn wreiddiol fel cynllun peilot yn 2005. Y nod oedd cyflawni'r amcan yn Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru, **Iaith Pawb – Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog**, sef cynyddu nifer yr ymarferwyr sy'n gallu addysgu a hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg yn y cyfnod cyn 16 oed ac ar ôl 16 oed. Yn y Strategaeth soniwyd y bydd:

*cefnogaeth i athrawon i wella eu sgiliau Cymraeg trwy gyfnodau sabothol neu hyfforddiant arall.*

Disodlwyd y strategaeth Iaith Pawb gan **Iaith fyw: Iaith Byw** yn 2012. Mae'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg yn darparu cyfnodau o astudio dwys, er mwyn **datblygu sgiliau iaith Gymraeg** ac **meithrin hyder mewn methodolegau addysgu dwyieithog a chyfrwng Cymraeg**. Cynigir cyrsiau ar wahanol lefelau ac maent yn cael eu cyflwyno gan ddarparwyr ar draws Cymru, o dan gontract gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r cynllun yn talu costau teithio a chynhaliaeth cyfranogwyr ac yn talu am staff cyflenwi, er mwyn i ysgolion a cholegau allu rhyddhau staff i fynd ar gyrsiau hyfforddi.

Yn 2011-12, cynhaliodd Llywodraeth Cymru **Adolygiad o'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg ar gyfer ymarferwyr addysgol: profiad cyfranogwyr 2011-2012**, a gyhoeddwyd yn 2014. Daeth yr Adolygiad i'r casgliad y gall y Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg gael 'effaith glir ar ddefnydd o'r Gymraeg mewn colegau':

*Y brif neges gan yr holl gyfranwyr i'r ymchwil (cyfranogwyr, awdurdodau lleol ac uwch-reolwyr) oedd bod y Cynllun yn un gwerthfawr a bod yr angen am gyrsiau o'r fath yn parhau.*

Ychwanegodd yr Adolygiad fod proffil yr iaith Gymraeg wedi cynyddu mewn ysgolion a cholegau yn sgil y cynllun. Hefyd, canfu'r gwaith enghreifftiau o berthynas rhwng y Cynllun Sabothol a'r Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd (yr aelod o staff sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn sefydliadau Addysg Bellach):

*Gwelwyd tystiolaeth o gysylltiadau rhwng y Cynllun Sabothol a gwaith yr Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd yn y sector addysg bellach. Mae Hyrwyddwyr wedi annog tiwtoriaid unigol i fynychu'r cwrs Sabothol, a hynny ar brydiau yn adlewyrchu cynlluniau colegau i ddatblygu darpariaeth mewn meysydd pwnc blaenoriaeth.*

Argymhelliad 20 o Ymchwiliad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu i'r Strategaeth Gymraeg newydd oedd gwerthuso'r Cynllun Sabothol:

*Rydym yn argymell y dylid cynnal gwerthusiad trylwyr o'r Cynllun Sabothol gan edrych yn arbennig ar ei werth am arian o ran gwella deilliannau yn yr ystafell ddosbarth ac annog mwy o athrawon i addysgu Cymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg.*

## Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd

Sefydlwyd y prosiect Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd yn 2005, yn wreiddiol fel rhaglen beilot, a chafodd ei ymestyn i bob sefydliad Addysg Bellach erbyn 2013. I ddechrau, ariannwyd yr Hyrwyddwyr gan Lywodraeth Cymru, gyda cholegau yn parhau i ariannu'r swyddi ar ôl i'r grantiau ddod i ben. Prif rôl yr Hyrwyddwyr yw **cefnogi cynllunio strategol o fewn sefydliadau Addysg Bellach i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog**. Prif amcanion y prosiect oedd:

> *Galluogi'r colegau i ddatblygu strategaeth gadarn a rhoi cynllun ar waith i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i ddysgwyr;*
>
> *Cynyddu nifer y dysgwyr sy'n dewis dilyn eu cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog;*

[a]

> *Cynyddu nifer staff y coleg a all helpu ac sy'n gymwys i ddatblygu, asesu a dilysu portffolios drwy gyfrwng y Gymraeg.*

Fel rhan o'r gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, cynhaliodd Llywodraeth Cymru **Astudiaeth o waith yr Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd mewn addysg bellach**, a gyhoeddwyd yn 2014, er mwyn archwilio cyfraniad yr Hyrwyddwr Dwyieithrwydd i ddatblygu strwythur cefnogi i annog addysg cyfrwng Cymraeg. Roedd yr adroddiad yn cynnwys 11 argymhelliad. Roedd yr argymhelliad cyntaf yn gysylltiedig ag argymhelliad 11 y Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, ac yn cyfeirio at gynlluniau strategol ar gyfer datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, a rolau'r Hyrwyddwyr o ran llunio'r cynlluniau hynny:

> *Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr holl golegau yn cwblhau cynlluniau gweithredu i ddatblygu darpariaeth Cymraeg a'u bod ar gael yn gyhoeddus. Er mwyn cefnogi'r cynlluniau gweithredu hyn, dylai colegau sicrhau bod gan Hyrwyddwyr gyswllt uniongyrchol gydag uwch reolwyr perthnasol yn y sefydliadau a'u bod yn derbyn cefnogaeth gan grŵp llywio mewnol.*

Roedd y trydydd argymhelliad, ar gyfer ColegauCymru, yn ymwneud â'r nod o gynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg:

> *Dylid llunio canllawiau i golegau ar ddulliau o annog myfyrwyr i ddilyn rhan o'u cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg.*

Yr unfed argymhelliad ar ddeg a therfynol oedd:

> *Dylai colegau gadarnhau eu cynlluniau i gynnal rôl yr Hyrwyddwyr, gan gynnwys nodi sut y bydd swyddogaethau'r Hyrwyddwyr yn cael eu hymgorffori o fewn gwaith y sefydliad yn barhaus.*

Daeth yr astudiaeth i'r casgliad bod y prosiect yn cael effaith sylweddol ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, o safbwynt cynllunio strategol. Arweiniwyd at 'gynnydd clir' yn y sylw y mae colegau yn ei roi i gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac roedd sefydliadau wedi 'ffurfioli'r broses' o gynllunio darpariaeth, o ganlyniad i'r Hyrwyddwyr. Mae'r data hyn ar lefel sefydliadau a adolygwyd yn yr astudiaeth yn dangos bod nifer y myfyrwyr sy'n dewis dilyn cyrsiau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog

wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn ogystal, dywedodd rhai colegau eu bod bellach yn ystyried sgiliau iaith wrth benodi staff, er mwyn cynnal ac ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Roedd hyn yn cael ei wneud am y tro cyntaf ar ôl penodi'r Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd. Daeth yr astudiaeth i'r casgliad a ganlyn:

> *Mae'n annhebygol iawn y byddai'r datblygiadau a welwyd ar draws y sector wedi digwydd pe na bai'r prosiect yn bodoli.*

Cydnabuwyd pwysigrwydd yr Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd hefyd yn y datganiad polisi **Iaith fyw: iaith byw – symud ymlaen 2014-17:**

> *Mae angen inni adeiladu hefyd ar waith yr hyrwyddwyr dwyieithog ym meysydd addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith, er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ôl-16 yn gynaliadwy ac yn cael ei datblygu ymhellach.*

## Datganiad polisi ar Addysg Uwch

Yn 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **ddatganiad polisi ar addysg uwch** a oedd yn cynnwys adran ar addysg cyfrwng Cymraeg. Roedd y datganiad yn cydnabod rôl y Sefydliadau Addysg Uwch o ran cefnogi'r Gymraeg:

> *Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw gweld yr iaith Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru. Mae rhan allweddol gan ddarparwyr addysg uwch i'w chwarae i wireddu'r weledigaeth honno.*

Mae'r datganiad yn cyfeirio at rôl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol o ran hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn y sector Addysg Uwch. Trafodir y Coleg ym mhennod 7 o'r papur hwn.

## Adolygu'r drefn ariannu

Yn 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad yr **Adolygiad Cynllunio a Chyllido Ôl-16** gyda'r nod o symleiddio'r drefn ariannu yn y sector ôl-16. Un o'r egwyddorion cynllunio a oedd yn sail i'r adroddiad oedd:

> ***Hyrwyddo'r gwaith o gyflwyno a datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.***

Mae'r fethodoleg ariannu flaenorol yn cynnwys ariannu ychwanegiadau i adlewyrchu'r costau ychwanegol ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Byddai'r fframwaith newydd yn 'parhau â'r drefn o roi cyllid ychwanegol' ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Byddai hwn yn swm wedi'i neilltuo o fewn y dyraniad grant cyffredinol. Fel rhan o'r fethodoleg newydd, byddai awdurdodau lleol a sefydliadau Addysg Bellach yn cael dyraniadau bloc ar gyfer pob un o'r ychwanegiadau hyn.

## Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Cafodd **Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ar gyfer 2013-14 - 2015** ei chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn 2013 a'i hymestyn yn ddiweddarach am flwyddyn arall hyd at 2017. Roedd y Strategaeth yn cynnwys **targed ar gyfer cynyddu astudiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg**:

> *Bydd nifer y myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru sy'n gwneud o leiaf 5 credyd o'u*

*cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg, y flwyddyn, yn codi o 4,335 yn 2011/12 i 5,600 yn 2015/16, gan gynnwys codi o 2,269 i 3,030 yn nifer y rhai sy'n astudio o leiaf 40 credyd y flwyddyn.*

### Y blaenoriaethau ar gyfer y sector Addysg Bellach

Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi llythyr sy'n amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer y sector Addysg Bellach. **Datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg** oedd y pumed maes blaenoriaeth a amlinellir yn **llythyr 2015/16 (PDF 231KB)** Huw Lewis, y Gweinidog Addysg ar y pryd. Yn y llythyr, nodwyd fel a ganlyn:

> *The number of learners studying through the medium of Welsh or bilingually in the sector is increasing slowly.*

Roedd y llythyr yn cyfeirio at y targed o gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn Addysg Bellach er mwyn cyrraedd y targedau a amlinellwyd yn y strategaethau addysg ac iaith:

> *Each institution is expected to increase the availability and take-up of Welsh-medium and bilingual course provision in support of our Welsh-medium Education Strategy and continue to maintain and develop the students' Welsh language skills to support our 'A living language: a language for living' strategy.*

Roedd y Gymraeg yn cael ei rhestru o dan y trydydd maes blaenoriaeth yn **llythyr 2016/17 (PDF 292 KB).** Dywedodd y Gweinidog:

> *Mae'n rhaid imi ddweud mor hapus ydw i i nodi'r nifer cynyddol o ddysgwyr ôl-16 sy'n astudio drwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog mewn ysgolion, colegau a sefyllfaoedd dysgu yn y gweithle, er y gallai'r cynnydd yma fod yn gyflymach mewn rhai ardaloedd.*

Roedd y llythyr yn adleisio dymuniad y llythyr blaenorol i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn sefydliadau Addysg Bellach.

## 5. Y sefyllfa ym maes Addysg Bellach

Mae addysg ar ôl oedran ysgol gorfodol yng Nghymru yn cael ei rhannu rhwng chweched dosbarth mewn ysgolion a sefydliadau Addysg Bellach. Dywedodd y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg fod mwyafrif y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn y sector ôl-16 i'w ganfod yn y chweched dosbarth, yn hytrach na sefydliadau Addysg Bellach:

> *Mae'r data yn dangos mai dosbarthiadau chweched dosbarth ysgolion yw prif ddarparwyr addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ystod oedran 16–19.*

Yn 2016, cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg **Sefyllfa'r Gymraeg 2012-2015: adroddiad pum mlynedd Comisiynydd y Gymraeg.** Roedd yr adroddiad yn adleisio'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg:

> *Mae'n deg dweud mai dosbarthiadau chweched dosbarth (Blynyddoedd 12 a 13) ysgolion uwchradd yw prif ddarparwyr addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ystod oedran 16–19.*

## Sefydliadau Addysg Bellach

Bu newidiadau yn strwythur y tirlun Addysg Bellach yn y blynyddoedd diwethaf, gyda llawer o sefydliadau yn uno. Ar hyn o bryd **mae 14 sefydliad Addysg Bellach** yng Nghymru. Yn 2014-15, dewisodd **dwy ran o dair o ddysgwyr** astudio mewn sefydliad Addysg Bellach ac maent ar hyn o bryd yn darparu **80 y cant o'r holl gymwysterau ôl-16** yng Nghymru.[2]

## Darpariaeth

Yn y datganiad polisi, **Iaith fyw: Iaith byw: Symud Ymlaen**, dywedodd Llywodraeth Cymru fel a ganlyn:

> *Y cynnydd yn nifer y siaradwyr o oedran ysgol rhwng 5 a 15 oed yw un o ddatblygiadau mwyaf calonogol y genhedlaeth ddiwethaf... Eto i gyd, y gostyngiad yn nefnydd y grŵp hwn o'r Gymraeg ar ôl gadael yr ysgol yw un o'n heriau mwyaf yn awr ac yn y dyfodol.*

Yn adroddiad pum mlynedd Comisiynydd y Gymraeg, cyfeiriwyd at **brinder y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg** ôl-16 a'r **nifer isel o fyfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg** ar y lefel hon:

> *Nodweddir y gyfundrefn addysg Gymraeg gan ddiffyg dilyniant o un cyfnod i'r nesaf, rhwng y cyfnodau allweddol mewn ysgolion ac yn enwedig wrth i ddisgyblion drosglwyddo i addysg bellach ac uwch.*

[a]

> *Mae canran y myfyrwyr sy'n derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg mewn addysg bellach ac uwch yn parhau i fod yn isel iawn o gymharu â'r ganran mewn ysgolion.*

Ategwyd hyn gan y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg:

> *Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn sefydliadau addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith yn parhau'n isel.*

Bu hefyd yn thema yn adroddiadau Estyn, a'r farn yn **adroddiad blynyddol 2015-16** Prif Arolygydd EM oedd:

> *Mae angen gwella'r drefn casglu data am gyrchfannau dysgwyr a data ynglŷn â nifer y dysgwyr sy'n hyfforddi yn Gymraeg. Er bod darparwyr ôl-16 yn cynnig agweddau ar hyfforddiant ac asesu trwy gyfrwng y Gymraeg, ychydig o ddysgwyr sy'n ymgymryd ag asesiadau ysgrifenedig neu gymwysterau yn yr iaith.*

Yn y sefydliadau Addysg Bellach, mae **pwyslais ar ddwyieithrwydd**, yn hytrach nag ar ddarpariaeth Gymraeg yn unig, fel y soniwyd yn adroddiad Comisiynydd y Gymraeg:

> *Mae'r model addysg cyfrwng Cymraeg yn un cwbl arferedig o fewn addysg statudol. Addysg cyfrwng Cymraeg yw pwyslais strategaeth y Llywodraeth ar gyfer y maes*

---

[2]Daeth yr ystadegau hyn o **Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth (PDF 257KB)** ColegauCymru a Sgiliaith, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2016

> *addysg yng Nghymru yn ei gyfanrwydd.  Er hynny, dysgu dwyieithog yw pwyslais Strategaeth Genedlaethol ar Ddwyieithrwydd Colegau Cymru.*

Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn casglu canlyniadau **Arolwg Llais y Dysgwr Cymru**, sy'n cynnwys dysgwyr mewn Addysg Bellach, Dysgu Seiliedig ar Waith, dysgu oedolion yn y gymuned a Chymraeg i Oedolion. Dangosodd arolwg 2015 fod tua **hanner y dysgwyr** wedi cael y **cyfle i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu yn y Gymraeg a'r Saesneg (49 y cant)**. Mae hwn yn gynnydd ers 2014. **Dywedodd un o bob deg dysgwr** y byddai'n well ganddynt **ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu mewn cymysgedd o Gymraeg a Saesneg (11 y cant)**. Nid yw'r ystadegau wedi eu rhannu yn ôl sector.

Ym mis Mehefin 2017, cyhoeddodd Estyn adroddiad ar **Addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn addysg bellach.** Y nod oedd:

– Archwilio pa mor effeithiol y mae colegau Addysg Bellach yn sicrhau parhad a dilyniant mewn profiadau dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a dwyieithog;

– Nodi a rhannu arfer dda mewn addysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Gwnaeth yr adroddiad ddeg argymhelliad; pump ar gyfer colegau Addysg Bellach, a phump ar gyfer Llywodraeth Cymru. Er gwaethaf y ffaith bod sefydliadau Addysg Bellach wedi cyrraedd targed Llywodraeth Cymru ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn Addysg Bellach ar gyfer 2015, daeth yr adroddiad i'r casgliad bod y ddarpariaeth dal yn brin:

> *O fan cychwyn isel, bu cynnydd bach yn nifer y gweithgareddau dysgu cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog mewn colegau addysg bellach dros y blynyddoedd diwethaf… At ei gilydd, nid oes digon o ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn parhau â'u hastudiaethau trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog mewn colegau addysg bellach.*

Ychwanegodd yr adroddiad fod canran y dysgwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog yn amrywio'n fawr rhwng meysydd dysgu. Fodd bynnag, mae 'rhai colegau' wedi bod yn llwyddiannus o ran darparu cyrsiau dwyieithog. Nododd yr adroddiad nad oedd mwyafrif y dysgwyr sy'n astudio eu cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog yn cwblhau eu hasesiadau terfynol yn Gymraeg. Dadleuodd Estyn y gallai hyn gael 'effaith niweidiol' ar statws y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Cyfeiriwyd yn yr adroddiad at yr angen am hyfforddiant ac adnoddau, gan arwain at Argymhelliad 4:

> *Gwella hyfforddiant staff ar y fethodoleg addysgu'n ddwyieithog, a sicrhau bod digon o adnoddau a deunyddiau dysgu ar gyfer cyrsiau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.*

## Yr ystadegau sydd ar gael

Yr ystadegau diweddaraf sydd ar gael ar wefan StatsCymru Llywodraeth Cymru yw'r rhai **2015/16**, sy'n dangos **nifer y meysydd dysgu a'r dull cyflwyno**. Mae'r data yn dangos:

– Cyfanswm y gweithgareddau **cyfrwng Cymraeg** (a ddiffinnir fel yr holl asesiadau a gwblhawyd yn Gymraeg) oedd **1,170**, **0.29 y cant** o'r gweithgareddau.

– Cyfanswm y gweithgareddau **dwyieithog** (a ddiffinnir fel o leiaf 50 y cant o'r holl asesiadau a gwblhawyd yn Gymraeg) oedd **11,450**, **2.8 y cant** o'r holl weithgareddau.

– Nifer y gweithgareddau gyda **rhai elfennau yn Gymraeg** (ond yr asesiad yn bennaf neu'n gyfan gwbl yn Saesneg) oedd **19,165** neu **4.7 y cant.**

– Cyfanswm y gweithgareddau gyda rhyw elfen o Gymraeg oedd **7.8 y cant**.

– Roedd hyn yn weddol gyson â'r ffigur cyffredinol yn **2014/15** sef **7.9 y cant**, er ei fod yn dangos **cynnydd** bach yn y gweithgareddau **cyfrwng Cymraeg yn unig**, a gweithgareddau gyda **rhai elfennau yn Gymraeg** a **gostyngiad** bach yn y gweithgareddau **dwyieithog.**

Mae StatsCymru hefyd yn cynnwys data am y **Gweithgareddau dysgu mewn sefydliadau addysg bellach yn ôl pwnc a dull cyflwyno:**

– Y pynciau a oedd â'r nifer uchaf o weithgareddau dysgu gyda rhai elfennau yn Gymraeg oedd **Manwerthu a Menter Fasnachol (18.1 y cant); Amaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid (17.7 y cant)** a **Busnes, Gweinyddiaeth a'r Gyfraith (14.2 y cant)**.

– Y pynciau a oedd â'r nifer isaf o weithgareddau dysgu gyda rhai elfennau yn Gymraeg oedd **Ieithoedd, Llenyddiaeth a Diwylliant (2.4 y cant)**.

## Yr angen am ragor o ddata

Mae yna **brinder data clir** ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sector Addysg Bellach. Mae'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn cynnwys diffiniad o ddarpariaeth ddwyieithog mewn colegau Addysg Bellach, gan nodi:

> *Mewn colegau addysg bellach yn benodol, gall darpariaeth ddwyieithog gyfeirio at sefyllfaoedd lle yr addysgir dosbarthiadau ar yr un pryd yn y ddwy iaith, neu lle mae cyrsiau yn cynnwys modiwlau cyfrwng Cymraeg.*

Ail argymhelliad yr adroddiad **Astudiaeth o waith yr Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd mewn Addysg Bellach** oedd:

> *Dylai colegau, gyda chymorth ColegauCymru, wella ansawdd y data a gesglir ar yr opsiynau dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a nifer y myfyrwyr sy'n dewis yr opsiynau hynny. Dylai'r data yma fod ar ffurf gyson sydd yn caniatáu cymharu rhwng sefydliadau a thros amser.*

Roedd adroddiad pum mlynedd Comisiynydd y Gymraeg hefyd yn pwysleisio nad oedd digon o ddata cyson a chynhwysfawr ynglŷn â pha ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd a'r gwahanol ddehongliadau o ddarpariaeth ddwyieithog, gan nodi:

> *Ar hyn o bryd mae'n gymharol anodd cael darlun clir o'r niferoedd sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog mewn colegau addysg bellach.*

Dadleuwyd yn yr adroddiad mai rhan o'r rheswm am y broblem oedd bod gan golegau unigol ddealltwriaeth wahanol o'r hyn a olygir gan 'gyfrwng Cymraeg a dwyieithog' a bod hynny'n cael ei adlewyrchu yn y dull o gofnodi ystadegau.

Cyfeiriodd adroddiad Estyn yn 2017 hefyd at broblem ynghylch data:

> *Nid yw llawer o golegau yn cofnodi gwybodaeth yn gyson ac yn gywir ynglŷn â pha weithgareddau dysgu a gyflawnir yn ddwyieithog neu yn Gymraeg.*

Arweiniodd hyn at argymhellion ar gyfer colegau Addysg Bellach a Llywodraeth Cymru:

*Gweithio'n fwy effeithiol gydag ysgolion uwchradd i nodi dysgwyr sy'n siarad Cymraeg cyn iddynt drosglwyddo i'r coleg a sicrhau bod yr holl wybodaeth am gymorth sydd ei hangen arnynt gan ddysgwyr er mwyn eu galluogi i ddewis i barhau â'u dysgu yn Gymraeg* (Argymhelliad 1)

[a]

*Gwella meysydd casglu data, a'u canllawiau cysylltiedig, er mwyn sicrhau bod colegau'n cofnodi gwybodaeth gywir am alluoedd ieithyddol dysgwyr ac iaith dysgu ac asesu yn ôl gweithgaredd* (Argymhelliad 8

## Colegau Cymru

Yn 1993, crewyd y 'fforwm', a ail-enwyd yn ColegauCymru yn 2009, a'i nod oedd:

*codi proffil addysg bellach gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau allweddol er mwyn gwella cyfleoedd i ddysgwyr yng Nghymru.*

Roedd hyn yn cynnwys datblygu cyfleoedd i ddysgwyr astudio drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog ac astudio mewn coleg gydag ethos a hunaniaeth Gymreig. Yn 2010, cyhoeddodd ColegauCymru **Strategaeth Genedlaethol ar Ddwyieithrwydd mewn Addysg Bellach**, mewn ymateb i'r cyfrifoldebau a roddwyd i golegau Addysg Bellach yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (Nod Strategol 2). Roedd gan y Strategaeth Genedlaethol dair elfen:

– Elfen1: Datblygu **ethos Cymraeg** yn y coleg;

– Elfen 2: Datblygu **sgiliau cyfathrebu dwyieithog** i ychwanegu at ddarpariaeth cyfrwng Saesneg;

Elfen 3: Datblygu darpariaeth **cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog** ar gyfer dysgwyr ôl-14.

### Sgilaith

Cafodd Sgiliaith ei sefydlu yn 2001, gyda'r nod o ddarparu **hyfforddiant** i aelodau o staff ynghlych **methodoleg addysgu dwyieithog** a rhannu arfer da yn y sector ôl-14. Mae Sgiliaith yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Yn 2016, llofnododd Sgiliaith **Femorandwm o Ddealltwriaeth** gyda ColegauCymru. Rhai o nodau'r Memorandwm oedd:

*Codi proffil y sector addysg ôl-16 i fod yn sector sy'n cael ei glodfori am ei ddarpariaeth ddwyieithog;*

[a]

*Bod yn arloesol ac arwain ar arfer da dwyieithog yn nhermau cyflwyno methodoleg ac addysgeg dwyieithog.*

## Cymwysterau Cymru

Yn 2012, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Adolygiad o Gymwysterau 14-19** Huw Evans gyda'r weledigaeth o greu:

*Cymwysterau sy'n cael eu deall a'u gwerthfawrogi ac sy'n bodloni anghenion ein pobl ifanc ac economi Cymru*

[ac]

*Ymateb yn effeithiol i anghenion cenedl ddwyieithog.*

Un o egwyddorion sylfaenol y penderfyniad oedd **mynediad i gymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg** a'r Saesneg. Pumed argymhelliad yr adroddiad oedd:

*Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu un corff (Cymwysterau Cymru) sy'n gyfrifol am reoleiddio a sicrhau ansawdd yr holl gymwysterau nad ydynt ar lefel gradd sydd ar gael yng Nghymru.*

O ganlyniad, yn 2015, sefydlwyd Cymwysterau Cymru drwy **Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015**, yn rheoleiddiwr cymwysterau o dan lefel gradd, a'r system gymwysterau yng Nghymru. Roedd gan y Ddeddf ddau brif nod:

*Sicrhau bod cymwysterau, a system gymwysterau Cymru, yn effeithiol i ddiwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru*

[a]

*Hybu hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn system gymwysterau Cymru.*

Wrth fynd ati i gyflawni ei brif nodau, un o'r 'materion' y mae'n rhaid i Gymwysterau Cymru roi sylw iddo yw:

*Dymunoldeb hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, gan gynnwys drwy argaeledd trefniadau asesu sy'n darparu ar gyfer asesu drwy gyfrwng y Gymraeg, ac argaeledd cymwysterau sydd fel arall yn hyrwyddo neu'n hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.*

Yn 2016, cyhoeddodd **Cymwysterau Cymru y Polisi Rheoleiddio Cymwysterau cyfrwng-Cymraeg a Dwyieithog (PDF 341KB)**. Nod y polisi oedd sicrhau y dylai dysgwyr yng Nghymru:

*gael mynediad at ystod o gymwysterau y gellir eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog.*

Mae'r Ddeddf yn annog cyrff dyfarnu:

*I sicrhau y gellir asesu yn Gymraeg ac yn Saesneg ar gyfer ystod mor eang â phosibl o gymwysterau Dynodedig.*

# 6. Y sefyllfa ym maes Addysg Uwch

Roedd Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru yn datgan pa mor bwysig oedd addysg cyfrwng Cymraeg yn y sector Addysg Uwch:

*Mae angen dilyniant effeithiol i gyrsiau cyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch yn ogystal â phob math o ddysgu gydol oes, a datblygiad pellach ohonynt.*

Nododd y Strategaeth fod y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector wedi cynyddu, ond bod angen datblygu'r ddarpariaeth fwy fyth:

*Ym maes addysg uwch, er i ni weld rhai datblygiadau arwyddocaol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ceir llawer o amrywiadau yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a gynigir rhwng sefydliadau ac mewn pynciau gwahanol. Mewn rhai achosion, ceir cyfle i gyflawni pob rhan o gwrs, neu rannau helaeth ohono, drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mewn achosion eraill, efallai fod y cyfle yn gyfyngedig i ran o fodiwl, megis seminarau neu gymorth tiwtorial.*

### Ystadegau

Mae'r ystadegau diweddaraf a luniwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn academaidd 2014/15 yn dangos bod:

- **6,355 o fyfyrwyr** wedi cael eu haddysgu rhywfaint drwy gyfrwng y Gymraeg mewn **wyth prifysgol**, sy'n cynrychioli **5 y cant** o fyfyrwyr yng Nghymru.
- Dyma **21 y cant** o gynnydd **ers 2013/14**, yn bennaf o ganlyniad i'r **cynnydd yn nifer y myfyrwyr rhan-amser** sy'n cael eu haddysgu rywfaint drwy gyfrwng y Gymraeg.
- O'r 6,355 hyn o fyfyrwyr, cafodd **53 y cant** eu haddysgu **yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg** a chafodd **47 y cant ran o'u cwrs** yn y Gymraeg.
- O'r 6,355 hyn o fyfyrwyr roedd **72 y cant** yn **fenywod** a **28 y cant yn ddynion**. Nodwch fod mwy o fenywod yn astudio yng Nghymru na dynion yn 2014/15.
- Roedd **mwyafrif** helaeth y myfyrwyr a oedd yn cael eu haddysgu rywfaint drwy gyfrwng y Gymraeg ar **gyrsiau israddedig**, gyda bron i ddwy ran o dair o'r rhain yn astudio'n llawn amser.
- Roedd nifer y myfyrwyr **israddedig llawn amser** a oedd yn cael eu haddysgu rywfaint drwy gyfrwng y Gymraeg **wedi gostwng** ychydig o gymharu â 2013/14.
- Roedd nifer y myfyrwyr **ôl-radd** a oedd yn cael eu haddysgu rywfaint drwy gyfrwng y Gymraeg wedi **cynyddu** rhwng 2014/15.
- Yn 2014/15, roedd 10,550 aelod o staff academaidd ym mhrifysgolion Cymru. **Roedd 9 y cant o staff** yn gallu **addysgu yn Gymraeg** ac roedd **6 y cant o staff** yn **addysgu yn Gymraeg**.
- Y **pynciau mwyaf poblogaidd** gyda rhywfaint o addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ac eithrio'r Gymraeg a phynciau perthnasol, oedd **addysg, pynciau sy'n gysylltiedig â meddygaeth** ac **astudiaethau cymdeithasol**.

Mae'r ystadegau diweddaraf sydd ar gael ar StatsCymru yn dangos nifer y myfyrwyr sydd wedi cofrestru ar gwrs drwy gyfrwng y Gymraeg mewn gwahanol sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru. Mae'r ystadegau diweddaraf ar gyfer y flwyddyn academaidd **2014/15**. Mae'r data'n dangos mai'r sefydliad Addysg Uwch gyda'r nifer uchaf a'r ganran uchaf (21 y cant) o fyfyrwyr yn cofrestru ar gyrsiau gyda rhywfaint o addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg oedd Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Y brif fenter i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ym maes Addysg Uwch yw'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

## 7. Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Menter a sefydlwyd i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ym maes Addysg Uwch yw'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Sefydlwyd y Coleg fel cwmni cyfyngedig trwy warant ac elusen gofrestredig yn mis Mawrth 2011. Mae holl brifysgolion Cymru yn aelodau ac mae'r Coleg yn gweithio trwy

ganghennau ar draws wyth o brifysgolion. Nod y canghennau yw hyrwyddo a goruchwylio gweithgareddau'r Coleg yn y sefydliadau unigol a bod yn bwynt cyswllt lleol i fyfyrwyr. I gael rhagor o wybodaeth, gweler **erthygl blog y Gwasanaeth Ymchwil dyddiedig 5 Mehefin 2017**.

Amlinellwyd amcanion y Coleg yn ei Gynllun Academaidd cyntaf, a gyhoeddwyd yn fuan ar ôl ei sefydlu ym mis Ebrill 2011. Roedd y nod cyntaf yn ddatganiad cyffredinol o'i ddiben:

> *I hybu dysg a gwybodaeth … drwy hyrwyddo, cynnal, datblygu a goruchwylio'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn addysg uwch Cymru, gan weithio gyda, a thrwy gyfrwng, sefydliadau addysg uwch yng Nghymru.*

Roedd y nodau eraill yn ymhelaethu ar y datganiad hwn:

- **Goruchwylio darpariaeth cyfrwng Cymraeg**, a darparu undod o ran pwrpas, cydlyniad ac arweinyddiaeth drwy strategaeth genedlaethol;
- Creu trefniadaeth gadarn a pharhaol, yn genedlaethol, ar gyfer sicrhau **statws llawn i'r Gymraeg fel cyfrwng ar gyfer addysg** ac ymchwil o fewn y prifysgolion;
- Cyfoethogi, dyfnhau ac ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer myfyrwyr, gan ysgogi ac ymateb i alw, a **chynyddu nifer y myfyrwyr** sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cyfeirir at y Coleg yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg:

> *AS2.6: Hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth rhwng y sector addysg uwch (gan gynnwys y Coleg Ffederal arfaethedig) a'r sector ôl-16 ar lwybrau dilyniant effeithiol i'r dysgwyr o'r ddarpariaeth ôl-16 i addysg uwch cyfrwng Cymraeg.*
>
> *AS2.7: Gwella'r broses o gynllunio llwybrau ar gyfer dilyniant cyfrwng Cymraeg i mewn i addysg uwch ac ynddi, mewn pynciau academaidd a meysydd galwedigaethol â blaenoriaeth.*

Roedd y Coleg hefyd yn rhan o **Ddatganiad Polisi Llywodraeth Cymru ar Addysg Uwch, 2013:**

> *Drwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi datblygiad addysg uwch cyfrwng Cymraeg a Chymru ddwyieithog hyderus.*

Yn **Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: y camau nesaf,** mynegodd Llywodraeth Cymru y bwriad canlynol:

> *Parhau â'n trafodaethau gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Prifysgolion Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i sicrhau darpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg cynaliadwy, ac ymgynghori ar y weledigaeth ar gyfer y Coleg er mwyn adeiladu ar y llwyddiant cychwynnol.*

Roedd **Adolygiad Diamond** yn cefnogi gwaith y Coleg, ac argymhellodd ei fod:

> *Yn parhau i fod y prif gorff o ran cynllunio a chefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar sail strategol ar draws addysg uwch yng Nghymru.*

Roedd yr Adolygiad yn cynnwys dau argymhelliad a oedd yn cyfeirio at y Coleg. Argymhellodd y Panel fod Llywodraeth Cymru:

*Yn gweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, CCAUC, prifysgolion a sefydliadau fel colegau AB, ysgolion, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a chyflogwyr i sicrhau'r effaith uchaf posib a'r gwerth mwyaf o fuddsoddiad cyhoeddus mewn, a chymorth i, addysg uwch cyfrwng Cymraeg.*

[a]

*I gefnogi model cyllido cynaliadwy yn addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg, dylai buddsoddiad blynyddol oddi wrth CCAUC yn y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'i raglen ysgoloriaeth gael ei gadw ar lefel y flwyddyn academaidd 2016/17 (£5.8m) o leiaf.*

Ers datblygiad y Coleg, mae nifer y cyrsiau cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu, ac ar hyn o bryd mae dros **900 o gyrsiau gradd** lle gall myfyrwyr astudio **rhan o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.** Yn y rhan fwyaf o feysydd academaidd, mae **o leiaf 40 credyd** o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ac mae tua **5,300 o fyfyrwyr** yn astudio **o leiaf 5 credyd** drwy gyfrwng y Gymraeg. Drwy ei Gynllun Staffio Academaidd, a ddaeth i ben yn 2016, dyrannodd y Coleg grantiau i brifysgolion i ariannu darlithwyr cyfrwng Cymraeg. Mae **115 o ddarlithwyr** wedi eu penodi mewn prifysgolion ar draws Cymru. Mae'r Coleg wedi dyfarnu dros **600 o ysgoloriaethau israddedig** a **50 o ysgoloriaethau meistr** i fyfyrwyr sy'n astudio'r cyfan neu ran o'u cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae wedi ariannu dros **50 o ddoethuriaethau**.

Yn 2013, llofnododd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol **Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth** gyda ColegauCymru. Un o nodau allweddol y memorandwm oedd cydweithio er mwyn:

*Gwella llwybrau dilyniant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gyfer addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith, dysgu oedolion ac addysg uwch trwy ddatblygu, hyrwyddo a chefnogi llwybrau addysgol integredig sy'n ymateb i anghenion go-iawn dysgwyr a chyflogwyr;*

Roedd hyn yn cynnwys:

*cefnogi hyrwyddo rhagoriaeth addysgu a dysgu i wella ansawdd trwy rannu adnoddau addysgu a dysgu (yn enwedig adnoddau dysgu digidol) ac arfer arloesol o ran addysgeg/andragogaeth ym maes addysg cyfrwng Cymraeg.*

Yn 2014, comisiynwyd OldBell3 gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i gynnal **Gwerthusiad o'r cynnydd a wnaed gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol** (PDF 1.96MB). Gwnaeth yr adroddiad 17 o argymhellion ar gyfer gwelliannau, gan ddod i'r casgliad:

*bod y Coleg wedi cyflawni llawer iawn mewn amser byr ac wedi bod yn hynod lwyddiannus wrth ennill ymddiriedaeth a pharch amrediad o randdeiliaid ar draws y llywodraeth a'r sector addysg uwch yng Nghymru.*

## Dyfodol y Coleg

Ym mis Ionawr 2017 cyhoeddodd y Coleg gynllun newydd **Cynllun Academaidd: Tuag at 2020 a thu hwnt**, yng nghyd-destun targed Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r Cynllun Academaidd newydd yn **nodi cyfeiriad newydd i'r Coleg.** Yn hytrach nag ymateb i geisiadau gan brifysgolion unigol, bydd y Coleg bellach yn ceisio darparu arweiniad strategol cryfach. Bydd hyn

yn golygu lleihau nifer y swyddi darlithio a ariennir a symud tuag at grantiau pwnc. Disgwylir i'r cytundebau cyllido hyn ddod i rym yn 2017/18.

Ar ei phenodiad i'r Cabinet ym mis Mehefin 2017, cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ar **ddeg blaenoriaeth addysg** gyda'r Prif Weinidog. Un o'r blaenoriaethau addysg oedd archwilio'r posibilrwydd o ehangu cylch gwaith y Coleg i gynnwys Addysg Bellach. Mewn sesiwn graffu ar y gyllideb gyda'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar **10 Tachwedd 2016**, dywedodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes fel a ganlyn:

> *Rydym ni'n gwybod bod y Coleg Cymraeg wedi bod yn hynod llwyddiannus, ac rydym ni i gyd, rwy'n credu, yn ymfalchïo yn llwyddiant y Coleg Cymraeg. Ac felly, sut rydym ni'n tyfu ac yn ehangu y llwyddiant yw'r cwestiwn. Ac rydym ni'n gobeithio y byddwn ni mewn sefyllfa, pan fo'r gweithgor yn adrodd nôl … i allu ymateb i hynny, a sicrhau ein bod ni'n gweld ehangu o weithgareddau'r Coleg.*

Ar **1 Awst 2016**, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg:

> *ar ôl pum mlynedd o weithredu, mae'n amser priodol i ystyried rôl y Coleg i'r dyfodol.*

Cyhoeddodd y byddai **grŵp gorchwyl a gorffen** Llywodraeth Cymru yn cael ei sefydlu er mwyn adolygu gweithgareddau'r Coleg. Ar **2 Tachwedd 2016,** cyhoeddodd Kirsty Williams fanylion am aelodaeth y grŵp. Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen yn ystyried y materion a ganlyn:

- A yw model a strwythur presennol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn briodol ac yn addas at y diben o hyrwyddo a datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg AU o 2017 ymlaen;
- Beth yw'r opsiynau ar gyfer cyllido'r Coleg i'w ddyfodol;
- A yw'r berthynas rhwng y Coleg a sefydliadau AU yng Nghymru yn gynaliadwy i'r dyfodol;
- A ddylid ymestyn cylch gwaith y Coleg i gynnwys y sector ôl-16;
- Beth yw rôl y Coleg mewn ymateb i argymhellion adolygiad Diamond a datblygiadau polisi diweddar eraill.

Ar **14 Mehefin 2017 (PDF 353KB)**, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wrth y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg , bod yr adroddiad ar fin ymddangos. Bydd canlyniadau'r adroddiad yn ganolog i symud y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ymlaen yn y sector ôl-orfodol.